## YR ARENIG

Ardal o fryniau uchel gydag ehangder mawr o rostir tonnog, fe geir creigiau sylweddol ar ochrau Arenig Fawr. Mae yna enwau gweddol unigryw i'w cael yn yr ardal, ond oherwydd diboblogaeth y bydd llawer o enwau a straeon wedi'u colli. Mae'n hawdd nodi'r bythynnod a ffermydd oedd yna gynt; mae'r coedwigoedd yn dominyddu a newid cymeriad rhai ardaloedd hefyd

**Carreg Lefain SH 844370**
Carreg sydd yn un *llefain* 'gweiddi allan', hynny yw carreg ateb; mae'r enw i'w weld mewn nifer o lefydd o gwmpas Cymru.

**Cerrig Chwibanog SH 831301**
Mae'n debyg bod y gair *chwiban* yn cael ei ddefnyddio yma oherwydd sŵn y gwynt yn chwythu drwy'r creigiau; ystyr arall na fyddai rhywun fel arfer yn cysylltu â'r gair yw hisian. Fodd bynnag, mae hen gorlannau defaid yn yr ardal ac y roedd llwybr pwysig trwy'r bryniau yn y fro ucheldirol hon; felly, gallai'r chwibanog cyfeirio at fugeilwyr neu borthmyn ac oedd yn mynd heibio ar un adeg.

**Cerrig Lladron SH 774436**
Lladron yw'r lluosog y gair *lleidr* 'anrheithiwr'; Cernyweg *ladron*. Kerrig y Lhadron c.1700 Parochialia, Cerrig-y-lladron 1838 AO.

**Cerrig Llwynogod SH 778433**
*Llwynogod* lluosog y gair *llwynog* 'cadno, llywernog'. Mae'r enw yn gysylltiedig a'r mannau ble roedd yr anifail yn byw, sef *llwyn* 'perth, coed' + *-og* 'cysylltiad a'; Cymraeg Canol lluynauc 'cadno'. Cerrig Llwynogod 1840-80 6" AO.

**Cerrig y Bala SH 794412**
Mae'n debyg nad *bala* 'all-lif' yw'r esboniad, er efallai y bu llyn bach neu bwll ar un adeg, fel y gwelir yn enw 'pwll hwyaid' Pwll Hwyaid gerllaw. Ym mhob tebyg gellid rhoi ystyr o'r ffurfiau *bala, bela, bele* 'ffwlbart, bele'r coed'; ond ar un adeg yr oedd pobl yn cysylltu *bala* 'blaidd' yn rhai o'r enwau. Cerig-y-bala 1838 AO.

**Cerrig yr Ieirch SH 758426**
Dyma un lluosog y gair *iwrch*; gweler isod.

**Cerrig yr Iwrch SH 826292**
*Iwrch* 'math o garw bychain' (Roe deer): Capreolus capreolus; Fe'i gwelwyd yn helaeth ledled Ewrop ar un adeg; fe ysgrifennodd Leland am y niferoedd o geirw yn Eryri. Mae'n debyg bod yr enw yn cyfeirio at leoliad lle'r oedd y ceirw i'w gael. Hen Gernyweg *yorch*, Hen Lydaweg *iorch*, Gauleg *Iurca* o'r gwreiddyn Indo Ewropeaidd **i̯ork-*. Cerig-yr-eirch 1838 AO.

**Clogwyn Carreg yr Hollt SH 818319**
Mae'n debyg mai cyfeiriad at nodwedd hollt 'crac, hafn' yn y clogwyn ydyw; neu, mewn rhyw graig yn y lleoliad. Fridh Garreg yr Holht c.1700 Parochialia.

**Craig Aderyn SH 764374**
Enw digon cyffredin yng Nghymru, ond at ba adar y mae'n cyfeirio? Mae siawns hefyd bod cyfeiriad chwedlonol at yr enw sydd wedi ei hen anghofio ers amser.

**Craig Wen SH 847374**
Man tywyll sy'n gwynebu'r Gogledd felly tybed os lliw cen y cerrig yw'r *(g)wen* - ffurf benywaidd gwyn'.

Mynyddoedd.co.uk

**Craig y Ffolt SH 784346**
*Ffolt* 'ffald, corlan', benthyciad o'r Saesneg *fold.* Ar ddechrau bugeilio ar y mynyddoedd, ni fyddai'r defaid yn aros allan dros nos oherwydd ymosodiad posibl gan lwynogod neu fleiddiaid. Cawsant eu gyrru i gorlannau gyda'r nos, a mynd yn ôl i'r porfeydd yn y bore. Un effaith o hyn oedd bod y defaid, nad oeddent yn naturiol yn aros mewn un ardal, wedi datblygu greddf i aros mewn ardal benodol, wel rhai ohonynt o leiaf. Dim ond dros genedlaethau lawer lawer y mae defaid yn dod i arfer ag un ardal o fynydd neu fryn ac yn tueddu i aros yno. Dyma'r *cynefin* 'porfa mynyddig', a'r rheswm pam yr oedd tir mynyddig yn cael eu gwerthu gyda'u ddefaid.

**Craig y Garn SH 895413**
Tir creigiog sydd yn hytrach na chlogwyn, mae carn yna ond nid yw Coflein yn sicr os un hynafol sydd. Kraig Garn & Kraig y Garn c.1700 Parochiallia, Garn 1838 AO.

**Craig yr Hyrddod SH 825379**
Mae *hyrddod* yn un lluosog y gair *hwrdd* 'maharen'; mae gan y gair hwrdd ail ystyr 'ergyd, rhuthr, gwthio', yn union fel y gair Saesneg *ram* 'hwrdd; ergyd', mae gweithred yr anifail wrth amddiffyn ei 'hareem' o famogiaid wedi datblygu i fod ei enw. Heblaw'r tymor paru, mae'r hyrddod yn tueddu i gadw at ei gilydd fel grŵp ar wahân i ffwrdd oddi wrth weddill y defaid ac efallai mai hon oedd un ardal y byddai'n pori. Roedd yr hwrdd yn symbol 'Celtaidd' pwysig fel gwroliaeth ac adnewyddiad, roedd hefyd yn gysylltiedig â chynhaliaeth, gwarcheidwaeth ac arweinyddiaeth i enwi ond ychydig. llethr yr Hyrddod c.1700 Parochialia.

**Pen Tyrrau SH 833385**
*Pen* 'copa' + *tyrrau* 'tomen, pentyrrau'; tyrrau yw lluosog y gair twr; ac fe ellid ei defnyddio yn ffigurol i ddisgrifio mannau o glogwyni a chreigiau un ar ben y llall. Fodd bynnag, tybed os dryswch sydd yma gyda'r gair tŵr 'adeiladwaith uchel' (lluosog tyrau neu tyriau); anodd profi gydag unrhyw sicrwydd.

Mynyddoedd.co.uk